

Sut i ddefnyddio'r mewnanadlydd Ellipta[®]




Dim ond pan fyddwch chi'n barod i ddechrau defnyddio eich mewnanadlydd ddylech chi agor y pecyn. Unwaith y byddwch chi wedi agor y ffoil, dylech ddefnyddio eich mewnanadlydd Ellipta o fewn 6 wythnos.

Defnyddier erbyn (6 wythnos o agor y deunydd pacio ffoil): _____

Mae eich mewnanadlydd Ellipta yn cynnwys cyflenwad o 30 dos a dylid ei ddefnyddio'n ddyddiol, un anadliad unwaith y dydd ar yr un pryd pob dydd. Peidiwch â defnyddio eich mewnanadlydd Ellipta i ysgafnhau ymosodiad sydyn o ddiffyg anadl neu wichian, os byddwch chi'n cael pwl o'r fath dylech ddefnyddio mewnanadlydd sy'n gweithredu'n gyflym (fel salbutamol).


Does dim angen i chi baratoi eich mewnanadlydd Ellipta mewn unrhyw ffordd arbennig, dim ond dilyn y cyfarwyddiadau cam wrth gam hyn.

Agor



- Lithro'r gorchudd i lawr nes byddwch yn clywed 'cllic'
- Tra'n dal y mewnanadlydd i ffwrdd o'ch ceg, anadlwch allan cymaint ag sy'n gyfforddus

Mewnanadlu



- Rhowch y geg rhwng eich gwefusau, a chau'ch gwefusau'n dyn o'i amgylch
- Cymerwch un anadl hir, cyson, dwfn a dal yr anadliad yma am o leiaf 3-4 eiliad

Cau



- Tynnwch y mewnanadlydd o'ch ceg ac anadlu allan yn araf a gofalus
- Llithrwch y gorchudd i fyny mor bell ag y mae'n fodlon mynd i orchuddio'r darn ceg

Darllenwch y Daflen Wybodaeth i Gleifion bob tro. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os nad ydych chi'n siŵr ynghylch defnyddio eich mewnanadlydd, cysylltwch â'ch meddyg, nyrs neu fferyllydd.

Sylwer:

- Efallai na fydd yn bosibl blasu neu deimlo'r feddyginiaeth, hyd yn oed wrth ddefnyddio'r mewnanadlydd yn gywir
- Peidiwch ag ysgwyd y mewnanadlydd, rhwystro'r awyrdyllau gyda'ch bysedd nac anadlu allan i mewn i'r mewnanadlydd
- Bydd y cyfrifydd dos yn cyfrif i lawr un uned ar y tro
- Os nad yw'r cyfrifydd dos yn cyfrif i lawr wrth i chi glywed y 'cllic', ni fydd y mewnanadlydd yn darparu'r dos sydd angen. Os bydd hyn yn digwydd, ewch â'ch mewnanadlydd yn ôl i'r fferyllyfa